

## CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

### Eitem 87 – Is-bwyllgor Cyllid o gofnodion 9fed Ionawr, 2023

**Adroddwyd** fod aelodaeth yr Is-bwyllgor yn brin gan i ddau o'r aelodau ymdeol o fod yn aelodau'r Cyngor yn ôl ym mis Mai y llynedd.

**Penderfynwyd** peidio penodi Is-bwyllgor Cynllid ond fod oll o'r Cyngor i drafod y cyfrifon a.y.

**Cyflwynodd** y Clarc fantolen ariannol hyd at ddyddiad y Cyngor ac eglurodd iddi gael ar ddeall gan Swyddog o Archwilio Cymru na ddylid cadw swm sylweddol o arian yn ôl. Y sefyllfa ar noson y Cyngor oedd fod £8,151.11 yn y cyfrif cyfredol a £2,582.34 yng nghyfrif y fynwent. Awgrymwyd fod peth o'r arian yn cael ei wario ar lanhau Llwybr Bach, Botwinnog, gan fod plant yr Ysgol Uwchradd yn ei ddefnyddio yn wythnosol gyda'r gwerau ymarfer corff; fod potiau blodau yn cael eu prynu ar gyfer y gwanwyn i'w rhoi yn y pentrefi o fewn tiriogaeth y Cyngor; fod £1,000 i'w drosglwyddo i Gronfa'r Fynwent

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth yn y fantolen ac fod y mater i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. **Penderfynwyd** hefyd gwneud y cyfraniad blynyddol o £1,000 i gronfa'r fynwent.

**Yn y cyswllt hwn**, ystyriwyd y praesept ar gyfer 2023/24 a **phenderfynwyd** yn wyneb yr hinsawdd bresennol i lynu at yr un ffigwr a'r llynedd, sef £6,500.

### Eitem 88 – Cronfa COVID-19 LLYN AC EIFIONYDD

**Cyflwynwyd** llythyr gan Dr. Arfon Williams fel a ganlyn:

“Fe gofiwch ar ddechrau y Pandemig Covid, y buoch yn garedig iawn a rhoi arian i Gronfa Covid Ty Doctor. Bu'r arian o sawl ffynhonnell yn ddefnyddiol iawn yn archebu cyfarpar a darparu yn erbyn y feirws yma.

Bellach, yr ydym mewn gwell sefyllfa a mae gwell darpariaeth nag oedd yn gynnar yn 2020. Mae rhan sylweddol o arian heb ei wario, ac fe hoffem wybod beth fuasech yn hoffi i ni wneud efo'r arian sydd dros ben. A fydddech yn hoffi'r canran heb ei wario (pro rata) yn ôl, neu bydddech a diddordeb i ni ei wario mewn ffordd a fyddai er lles y gymuned? Rydym yn bryderus bod argyfwng costau byw o'n blaenau ac efallai y byddai'n bosibl creu banc bwyd lleol, neu dalebau ar gyfer prynu tanwydd a.y.y.b. A fydddech cystal a gadael i mi wybod be hoffech ei wneud, neu os ydych am dderbyn yr arian yn ôl yn uniongyrchol...”

**Penderfynwyd** gofyn am yr arian oedd yn weddill yn ôl fel fod yn gallu ei roi yn ôl er budd trigolion y gymuned.